

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

August 2016

Annwyl Gyfaill,

YMGYNGHORIAD AR GAU PYSGODFA CREGYN GLEISION BAE AC  
ABER CONWY

Caewyd pysgodfa cregyn gleision Bae ac Aber Conwy ar 4 Medi 2015 ac mae'n parhau i fod ar gau hyd 31 Awst 2016, at ddiben cynnal gwaith rheoli'r bysgodfa yn unol ag Is-ddeddf 13A Hen Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr ("NWNWSFC").

Fel y gwyddoch efallai, mae'r bysgodfa hon yn dod o fewn ffiniau dynodiad o dan y Gyfarwyddeb Gynefinoedd (Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor), sef Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy, a dynodiad o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sef Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Aber Afon Conwy, er mwyn gwarchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd hawdd eu niweidio a geir yn y safleoedd hyn.

Gan fod y safleoedd hyn wedi'u gwarchod, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyngor gwyddonol ynghylch i ba raddau a sut y dylid cynaeafu'r Bysgodfa Cregyn Gleision, hynny er mwyn rheoli'r bysgodfa a diogelu a gwarchod y stoc cregyn gleision. Y cyngor gwyddonol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael yw mai ond ar lefel fach a chyfyngedig iawn y dylid caniatáu casglu'r cregyn gleision ym Mhysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy ac â siarad yn gyffredinol, dylai'r bysgodfa aros ynghau (gyda dim ond hyd at 22 o bysgotwyr yn cael caniatâd i bysgota'r safle mewn ffordd benodol).

Cyn y caiff Llywodraeth Cymru gau pysgodfa yn unol ag Is-ddeddf 13A yr hen NWNWSFC, yn ogystal â chael y cyngor gwyddonol a ddisgrifir uchod, rhaid ymgynghori â'r bobl neu'r cyrff sydd i bob golwg yn cynrychioli'r cocoswyr neu'r pysgotwyr cregyn gleision lleol.

Yn unol â hynny felly, ystyriwch y llythyr hwn fel ymgynghoriad ffurfiol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ynghylch cau Pysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy. Carem gylwed eich sylwadau a'ch safbwyntiau ynghylch y bwriad i'w chau.

Anfonwch eich safbwyntiau ar y mater hwn atom ar e-bost yn [Marine&fisheriesmailbox@wales.gsi.gov.uk](mailto:Marine&fisheriesmailbox@wales.gsi.gov.uk) neu drwy'r bost i'n swyddfa yng Aberystwyth;

Uned Pysgodfeydd,  
Llywodraeth Cymru,  
Rhodfa Padarn,  
Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth,  
SY23 3UR

erbyn 22 Awst 2016, er mwyn i ni allu eu hystyried yn llawn cyn unrhyw ddefnydd o'r pŵer i gau, os o gwbl. Cewch weld yr ymgynghoriad hefyd yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside>

Er eich gwybodaeth, y cyngor gwyddonol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael yw na chaiff y bysgodfa arfaethedig fawr o effaith ar Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai/Bae Conwy a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Aber Afon Conwy cyn belled:

- a) a chaniateir mwy na 22 o gasglwyr ym Mhysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy; a bod
- b) y casglwyr hynny'n gweithio o gychod yn unig pan fydd o leiaf fetr o ddŵr o dan y cwch; a bod
- c) y casglu'n cael ei wneud â chribyn llaw na fydd yn fwy na metr o led.

Er mwyn caniatáu pysgodfa cregyn gleision o'r natur cyfyngedig hwnnw, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cyhoeddi nifer o ganiatadau ysgrifenedig cyfatebol yn unol ag Is-ddeddf 13A(3) yr hen NWNWSFC. Mae'r is-ddeddf honno'n datgan na chaiff unrhyw un bysgota mewn ardal sydd wedi'i chau o dan Is-ddeddf 13A oni bai bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi eu caniatâd ysgrifenedig ar gyfer hynny.

Rhag unrhyw amheuaeth, mae casglu cregyn gleision at ddiben masnachol wedi'i wahardd ar y safle hwn oni bai bod person yn gweithio yn unol â thrwydded (a'i hamodau) sydd wedi'i rhoi o dan Erthygl 6 Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) 2011, neu drwy unrhyw ddull a fanylwyd yn Erthygl 3(2). Bydd torri'r gwaharddiad hwnnw'n drosedd o dan adran 190 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a chaiff unrhyw un a geir yn euog o drosedd o'r fath ddirwy trwy euogfarniad diannod o hyd at £50,000.

Hefyd, gallai'r Llys orchymyn atafaelu'r gêr pysgota a ddefnyddiwyd wrth gyflawni'r drosedd neu swm o arian sy'n gyfwerth â'r gêr neu adnoddau pysgota hynny. Gallai'r Llys hefyd wahardd yr unigolyn rhag dal Trwydded o dan Orchymyn 2011 am gyfnod fel y gwêl y Llys yn dda.

Carem glywed eich sylwadau neu'ch safbwyntiau ynghylch y bwriad i gau Pysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy am y cyfnod rhwng 1 Medi 2016 a 31 Awst 2017.

**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs